# Gemau geirfa - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad

Sawl gêm geiriau i atgyfnerthu dealltwriaeth o'r eirfa ariannol. Gellir chwarae'r gemau un ar ôl ei gilydd neu fel gweithgareddau unigol ar wahanol adegau.

## Paratoi

Trefnwch y dosbarth yn grwpiau o 2-4.

Lawrlwythwch y rhestr eirfa.

Dewiswch y geiriau yr hoffech eu defnyddio ar gyfer y tasgau ac argraffwch nhw – un copi i bob grŵp.

Torrwch y geiriau allan yn unigol – un copi i bob grŵp.

Torrwch y diffiniadau a'r enghreifftiau allan (gellir peidio â chynnwys yr enghreifftiau, i greu mwy o her, os a phan fo'n briodol) – un copi i bob grŵp.

Cadwch gopi heb ei dorri o'r geiriau, diffiniadau ac enghreifftiau er mwyn i'r athro gyfeirio ato.

Argraffwch y Taflenni Deall – un i bob grŵp.

Argraffwch a thorrwch allan y Cardiau Cyfathrebu – un i bob grŵp.

Argraffwch y Siart Geiriau – un i bob dysgwr.

## Adnoddau

Cardiau geiriau – un set i bob grŵp

Cardiau diffiniadau – un set i bob grŵp

Papur sgrap – un i bob dysgwr, i sillafu a sgorio

Pensiliau a dilewyr

Gridiau croesair a chwilair – yn ôl y gofyn

## Geirfa

Unrhyw eirfa yn y rhestr eirfa, fel y dewiswyd.

## Cyflwyniad/cyd-destun

Eglurwch y bydd y dysgwyr yn chwarae cyfres o gemau gyda'r geiriau maen nhw wedi bod yn eu dysgu, am arian, swyddi a busnes. Tynnwch sylw at y siartiau geiriau. Gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu geiriau, mewn pensil, at eu siartiau wrth iddyn nhw chwarae'r gemau. Os ydyn nhw'n cael unrhyw eiriau yn arbennig o anodd, ychwanegwch nhw at eu colofn geiriau anodd. Os ydyn nhw'n teimlo'n hyderus eu bod nhw wedi deall gair penodol, gofynnwch iddyn nhw ei ychwanegu at y golofn rwy'n gwybod hwn. Wrth iddyn nhw chwarae'r gemau, gallan nhw newid eu meddwl ac ychwanegu, dileu neu symud geiriau o un golofn i'r llall.

| | |
|---|---|
| Amser 2 funud | **Dosbarthu adnoddau**<br>Dosbarthwch y siartiau geiriau, cardiau geiriau, diffiniadau ac enghreifftiau. |
| Amser 10-20 munud | **Gêm baru**<br>Gofynnwch i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd i gyfateb y geiriau i'r diffiniadau. |
| Amser 10-20 munud | **Paru Parau**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr droi'r geiriau a'r diffiniadau wyneb i lawr a'u gosod o amgylch y bwrdd. Yn eu tro, dylai disgyblion droi dau gerdyn drosodd, gan geisio dod o hyd i eiriau a diffiniadau cyfatebol. |
| Amser 2 funud | **Newid adnoddau**<br>Tynnwch y cardiau diffiniadau ac enghreifftiau o bob grŵp. Dosbarthwch y taflenni deall. |
| Amser 15-20 munud | **Geiriau coll – deall**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i'r geiriau priodol i lenwi'r bylchau yn y brawddegau. |

# Gemau geirfa - Cynllun gweithgaredd

| Amser | Gweithgaredd |
|---|---|
| Amser 15–20 munud | **Cwis diffiniadau**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr gymysgu'r cardiau geiriau a'u gosod wyneb i lawr mewn pentwr rhwng y grŵp. Yna mae'r dysgwyr yn rhannu yn barau. Mae un dysgwr yn cymryd cerdyn ac yn darllen y gair. Mae'r partner yn ceisio diffinio'r gair. Yna maen nhw'n cyfnewid swyddogaethau, ac yn gweithio trwy'r cardiau, un ar y tro. |
| Amser 30–45 munud | **Dyfalu geiriau**<br>Rhowch y cardiau cyfathrebu i'r dysgwyr. Gyda'r cardiau geiriau wedi'u cymysgu ac yn wynebu i lawr mewn pentwr, mae un dysgwr yn dewis cerdyn ac yn ei ddarllen yn dawel. Yna, mae'n rhaid i'r dysgwr geisio cyfleu'r gair i weddill y grŵp gan ddefnyddio un neu fwy o'r technegau a restrir ar y cardiau cyfathrebu. Mae'r grŵp yn ceisio dyfalu'r gair. Os yw'r dysgwr yn defnyddio cerdyn cyfathrebu glas, mae'n ennill un pwynt. Os yw'n defnyddio cerdyn oren yn unig mae'n cael dau bwynt. Rhoddir y pwyntiau i'r dysgwr am gyfathrebu'n effeithiol ac i'r dysgwr am ddyfalu'n gywir. Mae pob dysgwr yn cymryd tro, gan weithio trwy'r pentwr o gardiau. |
| Amser 45–60 munud | **Croesair**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr greu croeseiriau ac ysgrifennu eu cliwiau eu hunain ar gyfer yr eirfa. Gellir defnyddio'r gridiau gwag a ddarperir. Rhowch ddau gopi i'r dysgwyr. Ar y copi cyntaf, byddan nhw'n ysgrifennu'r geiriau maen nhw wedi'u dewis, gyda gorgyffwrdd priodol, yn ychwanegu eu cliwiau at ymyl y grid ac yn lliwio gweddill y sgwariau yn ddu. Dylid defnyddio'r ail grid i gopïo patrwm y sgwariau du a gwyn ac ychwanegu eu cliwiau gyda chyfeirnodau rhif. Yna gall dysgwyr gyfnewid croeseiriau i'w cwblhau. |
| Amser 30–45 munud | **Chwilair**<br>Gan ddefnyddio'r grid amgaeedig, gofynnwch i'r dysgwyr farcio ardal sgwâr (10x10 neu 15x15) ac ychwanegu nifer o'r geiriau yn yr eirfa. Llenwch weddill y sgwariau gyda llythrennau ar hap ac ychwanegwch restr o'r geiriau a ddefnyddiwyd ar waelod y dudalen. Bydd y dysgwyr yn cyfnewid eu chwileiriau terfynol ac yn eu cwblhau. |
| Amser 0–20 munud | **Casgliad *(dewisol)***<br>Gallai'r sesiwn ddod i ben gydag adborth grŵp ar dechnegau cyfathrebu, geiriau anodd a chrynodeb o'r diffiniadau. |
| Amser 10–20 munud | **Cwis sillafu**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr osod yr holl eiriau mewn pentwr wyneb i lawr. Un ar y tro, gofynnwch i'r dysgwyr dynnu gair a'i ddarllen i weddill y grŵp. Mae'r grŵp yn ysgrifennu'r gair i roi cynnig ar ei sillafu'n gywir. Mae'r dysgwr nesaf yn y grŵp yn tynnu cerdyn ac yn y blaen. |

## Amrywiadau/ehangu ar y gweithgaredd

Gellir dychwelyd at y gweithgareddau hyn dros amser ac ychwanegu geiriau a diffiniadau newydd o feysydd cwricwlwm eraill.

## Taflen Gyfeirio

| Gair | Diffiniad | Enghraifft | Dealltwriaeth |
|---|---|---|---|
| Gwario | Defnyddio arian i dalu am rywbeth. | Mae Dylan yn ymdrechu i beidio â gwario ei arian i gyd. | Mae Dylan yn ymdrechu i beidio â ____ ei arian i gyd. |
| Cost | Gwerth y mae'n rhaid ei gyfnewid am eitem NEU y gwerth y cymerodd i greu rhywbeth. | Faint yw cost y lolipop yna? | Faint yw _________________ y lolipop yna? |
| Swydd | Gwaith rheolaidd yr ydych yn cael tâl amdano. | Fy swydd i yw addysgu plant. | Fy _______________________ i yw addysgu plant. |
| Darnau arian | Math o arian metel sy'n cael ei ddefnyddio i brynu pethau. | Mae gen i 2 o ddarnau arian £1 yn fy waled. | Mae gen i 2 o ____________________ £1 yn fy waled. |
| Cwsmer | Rhywun sy'n prynu nwyddau neu wasanaethau. | Mae Rhiannon yn gweithio mewn siop ac yn helpu'r cwsmer i brynu pethau. | Mae Rhiannon yn gweithio mewn siop ac yn helpu'r ________________________ i brynu pethau. |
| Gwerthu | Cyfnewid rhywbeth am arian. | Rwy'n mynd i werthu rhai o fy hen deganau. | Rwy'n mynd i _____________ rhai o fy hen deganau. |
| Eisiau | Dymuno rhywbeth yr hoffech ei gael. | Rwyf eisiau injan dân degan. | Rwyf _______________________ injan dân degan. |
| Angen | Diffyg rhywbeth sy'n bwysig i'ch diogelwch neu iechyd. | Mae angen bwyd a dŵr arna i. | Mae ______________________ bwyd a dŵr arna i. |
| Prynu | Cyfnewid arian am rywbeth. | Mae Dylan yn mynd i brynu injan dân degan. | Mae Dylan yn mynd i ___________ injan dân degan. |
| Talu | Y weithred o roi arian yn gyfnewid am rywbeth. | Mae'n rhaid i Dylan dalu y siopwr am ei injan dân degan. | Mae'n rhaid i Dylan _________________________ y siopwr am ei injan dân degan. |
| Arian parod | Arian ar ffurf darnau arian neu arian papur. | Mae gen i arian parod yn fy waled. | Mae gen i _______________________ yn fy waled. |
| Papur | Arian papur sy'n cael ei ddefnyddio i brynu pethau. | Mae gen i 2 bapur £5 yn fy waled. | Mae gen i 2 ___________________ £5 yn fy waled. |
| Cyfanswm | Y swm cyfan. Canlyniad adio pethau at ei gilydd. | Os byddaf i'n prynu lolipop am 50c a losin am 10c, mae'n rhaid i mi roi cyfanswm o 60c i'r siopwr. | Os byddaf i'n prynu lolipop am 50c a losin am 10c, mae'n rhaid i mi roi _____________ o 60c i'r siopwr. |
| Arian | Darnau arian neu arian papur sy'n cael ei ddefnyddio i dalu am bethau. | Rwy'n cadw fy arian yn ddiogel mewn blwch cynilo. | Rwy'n cadw fy ______________________________ ___________ yn ddiogel mewn blwch cynilo. |
| Pris | Y gwerth a roddir ar eitem i'w gwerthu. | Pris y tegan hwn yw £10. | Mae'r tegan hwn wedi ei farcio am _________ o £10. |
| Dewis | Y weithred o ddewis rhywbeth o wahanol opsiynau. | Mae gen i ddewis o lawer o wahanol deganau i'w prynu. | Mae gen i ___ o lawer o wahanol deganau i'w prynu. |
| Ennill | Cael arian neu rywbeth o werth yn gyfnewid am waith. | Rwy'n gallu ennill arian trwy helpu i lanhau a thacluso. | Rwy'n gallu ___ arian trwy helpu i lanhau a thacluso. |
| Siop | Lle y gellir prynu eitemau ag arian. | Byddaf i'n mynd i fy siop leol i brynu bara a llaeth. | Byddaf i'n mynd i fy ______leol i brynu bara a llaeth. |
| Gwerth | Beth allech chi ddisgwyl i rywun ei dalu amdano neu beth fyddech chi'n fodlon ei dalu amdano. | Mae gen i'r hen dedi hwn a oedd yn perthyn i fy nhaid. Er ei fod yn hen iawn, ei werth yw £200. | Mae gen i'r hen dedi hwn a oedd yn perthyn i fy nhaid. Er ei fod yn hen iawn, ei _________ yw £200. |
| Sgiliau | Galluoedd, doniau neu wybodaeth, y gellir eu defnyddio i wneud tasg yn llwyddiannus. | Mae jyglo, bod yn gyfeillgar, ysgrifennu â llaw, darlunio a meddwl am syniadau da, yn enghreifftiau o wahanol sgiliau. | Mae jyglo, bod yn gyfeillgar, ysgrifennu â llaw, darlunio a meddwl am syniadau da, yn enghreifftiau o wahanol _______________. |

## Taflen Gyfeirio

| Gair | Diffiniad | Enghraifft | Dealltwriaeth |
|---|---|---|---|
| Banc | Busnes lle mae pobl yn adneuo a chodi eu harian i'w gadw'n ddiogel. | Rwy'n cadw fy arian mewn banc. | Rwy'n adneuo fy arian mewn cyfrif _____________________. |
| Cymdeithas Adeiladu | Busnes yn debyg i fanc lle gallwch gynilo eich arian neu gael benthyg arian i brynu tŷ. Mae gan gymdeithasau adeiladu aelodau yn hytrach na chwsmeriaid. | Rwy'n cynilo fy arian mewn cymdeithas adeiladu. | Rwy'n cynilo fy arian mewn cyfrif _______________ ______________________. |
| Derbynneb | Cofnod o eitemau sydd wedi eu prynu a'r pris sydd wedi ei dalu. | Fe wnes i brynu tegan ac fe wnaeth y siopwr roi derbynneb i mi i brofi fy mod i wedi talu amdano. | Fe wnes i brynu tegan ac fe wnaeth y siopwr roi ____ ______________________________ i mi i brofi fy mod i wedi talu amdano. |
| Newid | Y gwahaniaeth rhwng cost eitem a'r arian a gafodd ei roi. | Costiodd fy lolipop 25c a rhoddais i 50c i'r siopwr. Rhoddodd y siopwr 25c o newid i mi. | Costiodd fy lolipop 25c a rhoddais 50c i'r siopwr. Rhoddodd y siopwr 25c o ____________________ _____________ i mi. |
| Moethau | Eitemau efallai ein bod eu heisiau ond nid oes eu hangen. | Mae teganau a siocledi yn foethau. Efallai ein bod eu heisiau ond nid oes eu hangen. | Mae teganau a siocledi yn ___________________ ___________________. Efallai ein bod eu heisiau ond nid oes eu hangen. |
| Codi arian | Codi arian o gymdeithas adeiladu neu fanc. | Os oes angen arian arna i, gallaf i godi arian o fy nghyfrif cynilo. | Os oes angen arian arna i, gallaf i _______________ ______________________ o fy nghyfrif cynilo. |
| Ennill | Llwyddo mewn gêm o ymdrech neu lwc. | Os byddaf i'n prynu tocyn raffl, efallai byddaf i'n ennill gwobr. | Os byddaf i'n prynu tocyn raffl, efallai byddaf i'n ___ ___________________________________ gwobr. |
| Cynilo | Rhoi eich arian o'r neilltu ar gyfer y dyfodol yn lle ei wario. | Rwy'n mynd i gynilo er mwyn prynu beic yn lle prynu losin. | Rwy'n mynd i ______________________________ ____ er mwyn prynu beic yn lle prynu losin. |
| Siec | Darn o bapur y gellir ei ddefnyddio i dalu am bethau, gydag arian sydd mewn cyfrif banc. | Nid oes gen i arian parod gan fod fy arian i gyd yn y banc, felly bydd yn rhaid i fi roi siec i chi. | Nid oes gen i arian parod gan fod fy arian i gyd yn y banc, felly bydd yn rhaid i fi roi________________ _______________________i chi. |
| Benthyg | Cymryd rhywbeth gan addo ei ddychwelyd neu roi rhywbeth yn ei le. | Byddaf i'n benthyg £1 i brynu'r bar siocled hwn, a'i roi yn ôl pan fyddaf i'n codi arian o fy nghyfrif cynilo. | Byddaf i'n ______________________________ ______ £1 i brynu'r bar siocled hwn, a'i roi yn ôl pan fyddaf i'n codi arian o fy nghyfrif cynilo. |
| Rhodd | Rhoi arian neu eitemau heb ofyn am unrhyw beth yn eu lle. | Rwyf i wedi rhoi rhodd o £10 i elusen sy'n helpu anifeiliaid sâl. | Rwyf i wedi rhoi ____________________________ ______ o £10 i elusen sy'n helpu anifeiliaid sâl. |
| Busnes | Gweithgaredd neu sefydliad sy'n gwneud arian trwy werthu nwyddau neu wasanaethau. | Fe wnes i ddechrau busnes, yn gwerthu ffrwythau a dŵr yn y parc. | Fe wnes i ddechrau ______________________ ____________________________________, yn gwerthu ffrwythau a dŵr yn y parc. |
| Adnau | Arian a delir i gymdeithas adeiladu neu fanc. | Pan fyddaf i'n ennill arian, rwy'n ei adneuo yn fy nghyfrif cynilo. | Pan fyddaf i'n ennill arian, rwy'n ei ____________ _______________________________ yn fy nghyfrif cynilo. |
| Cyflogau | Yr arian a gaiff ei dalu i weithiwr gan gyflogwr am y gwaith y mae wedi ei wneud. | Ar ddiwedd pob mis, rwy'n cael cyflog am fy ngwaith. | Ar ddiwedd pob mis, rwy'n cael ________________ _________________________ am fy ngwaith. |
| Benthyciad | Swm o arian a gaiff ei fenthyg, i'w dalu'n ôl yn y dyfodol. | Ces i fenthyciad o £5 i brynu tegan, ac fe wnes i ei dalu'n ôl fesul £1 yr wythnos. | Ces i _________________________________ o £5 i brynu tegan, ac fe wnes i ei dalu'n ôl fesul £1 yr wythnos. |

## Taflen Gyfeirio

| Gair | Diffiniad | Enghraifft | Dealltwriaeth |
|---|---|---|---|
| Cerdyn Debyd | Cerdyn plastig y gellir ei ddefnyddio i brynu pethau gydag arian sydd mewn cyfrif banc. | Fe wnes i ddefnyddio fy ngherdyn debyd i brynu dillad gan fod fy arian i gyd yn fy nghyfrif banc. | Fe wnes i ddefnyddio fy ____________________________________ i brynu dillad gan fod fy arian i gyd yn fy nghyfrif banc. |
| Gwerth | Beth yw gwerth rhywbeth i unigolyn penodol. | Mae’n debyg y byddai rhywun arall yn dweud mai dim ond 50c yw gwerth fy nhedi, ond i fi mae fy nhedi werth miliynau. | Mae’n debyg y byddai rhywun arall yn dweud mai dim ond 50c yw _____________________ fy nhedi, ond i fi mae fy nhedi werth miliynau. |
| Elusen | Grŵp neu sefydliad sy’n codi arian i helpu achos pwysig. | Rwyf i wedi rhoi arian i elusen sy’n helpu plant nad oes ganddyn nhw yr hyn sydd ei angen arnyn nhw. | Rwyf i wedi rhoi arian i ______________________________________ sy’n helpu plant nad oes ganddyn nhw yr hyn sydd ei angen arnyn nhw. |
| Mewn dyled | Gorfod talu dyled. | Rwyf i mewn dyled o £1 i fy mrawd oherwydd ces i fenthyg ganddo. | Rwyf i __________________________________ o £1 i fy mrawd oherwydd ces i fenthyg ganddo. |
| Cyllideb | Cynllun ar gyfer faint o arian y dylech ei wario. | Rwyf i wedi gosod cyllideb o £4 ar gyfer prynu diodydd a bwyd yn y sinema. | Rwyf i wedi gosod ___________________________________ o £4 ar gyfer prynu diodydd a bwyd yn y sinema. |
| Cerdyn Credyd | Cerdyn plastig y gellir ei ddefnyddio i brynu pethau ond mae’n rhaid talu’r arian yn ôl. | Fe wnes i ddefnyddio fy ngherdyn credyd i brynu dillad ac yna adneuo’r arian yn fy nghyfrif cerdyn credyd. | Fe wnes i ddefnyddio fy _______________ i brynu dillad ac yna adneuo’r arian yn fy nghyfrif cerdyn credyd. |
| Gyrfa | Swydd y mae rhywun yn ei dewis ar sail ei ddiddordebau a chryfderau, i’w dilyn fel gwaith oes. | Roedd gen i swydd yn gwerthu esgidiau cyn i fi ddechrau ar yrfa yn addysgu. | Roedd gen i swydd yn gwerthu esgidiau cyn i fi ddechrau ar_____________________________________ yn addysgu. |
| Busnes | Enw a gaiff ei roi i’r broses o werthu cynnyrch neu wasanaeth. | Fe wnes i ddechrau busnes yn golchi ceir, yna fe wnes i roi’r busnes i fy ffrind. | Fe wnes i ddechrau ______________________________________________ yn golchi ceir, yna fe wnes i roi’r busnes i fy ffrind. |
| Cyflogai | Rhywun sydd wedi cael gwaith yn gyfnewid am gyflog. | Rwy'n gweithio mewn siop. Rwy'n gyflogai i'r fenyw sy'n berchennog y siop. | Rwy'n gweithio mewn siop. Rwy'n ___________________________________ i'r fenyw sy'n berchennog y siop. |
| Nwyddau | Eitemau sy'n cael eu gwerthu gan fusnes manwerthu. Pethau y gellir eu dal neu eu symud. | Mae gan fy siop ddewis da o nwyddau fel cylchgronau, llaeth a chardiau cyfarch. | Mae gan fy siop ddewis da o ______________________________ fel cylchgronau, llaeth a chardiau cyfarch. |
| Logo | Symbol, neu lun bach, y mae busnes yn ei ddewis er mwyn i gwsmeriaid adnabod ei frand. | Mae gan Gymdeithas Adeiladu Principality logo wedi ei seilio ar y llythyren P a chwlwm Celtaidd. | Mae gan Gymdeithas Adeiladu Principality ___________________________ wedi ei seilio ar y llythyren P a chwlwm Celtaidd. |
| Elw | Y gwahaniaeth rhwng y swm y mae busnes wedi'i ennill a'r swm y mae wedi'i wario. | Fe wnes i brynu bariau siocled am 60c a'u gwerthu am £1. Fe wnes i elw o 40c ar bob bar siocled. | Fe wnes i brynu bariau siocled am 60c a'u gwerthu am £1. Fe wnes i _________________________________ o 40c ar bob bar siocled. |

## Taflen Gyfeirio

| Gair | Diffiniad | Enghraifft | Dealltwriaeth |
|---|---|---|---|
| Incwm | Arian sydd wedi'i dderbyn. | Mae'r arian rwy'n ei gael oddi wrth fy nghwsmeriaid am fy nwyddau yn cael ei alw'n incwm. | Mae'r arian rwy'n ei gael oddi wrth fy nghwsmeriaid am fy nwyddau yn cael ei alw'n ________________________. |
| Ymchwil i'r Farchnad | Y gweithgaredd o gasglu gwybodaeth am gwsmeriaid er mwyn gwneud penderfyniadau busnes da. | Datgelodd fy ymchwil i'r farchnad ei bod yn well gan gwsmeriaid grysau-T glas na chrysau-T coch. | Datgelodd fy ____________________________ ______________ ei bod yn well gan gwsmeriaid grysau-T glas na chrysau-T coch. |
| Brand | Dull adnabod neu steil busnes. | Mae'r logo tic a 'Just Do It' yn rhan o frand Nike. | Mae'r logo tic a 'Just Do It' yn rhan o ____________________________ Nike. |
| Busnes Gwasanaethau | Busnes sy'n cynnig gwasanaeth i'w gwsmeriaid yn hytrach na nwyddau. | Fe wnes i ddechrau busnes gwasanaethau, yn golchi ceir. | Fe wnes i ddechrau __________________________ _____________ yn golchi ceir. |
| Cynnyrch | Unrhyw nwyddau, gwasanaeth neu syniad y gellir eu gwerthu i gwsmer. | Mae fy chwaer a fi wedi dechrau busnesau. Fy nghynnyrch i yw cardiau cyfarch a'i chynnyrch hi yw glanhau tai. | Mae fy chwaer a fi wedi dechrau busnesau. Fy ______________________ i yw cardiau cyfarch a'i ___________________________ hi yw glanhau tai. |
| Gwariant | Arian a gaiff ei wario. | Roedd gwariant fy musnes yn cynnwys y gost o brynu fy nwyddau a thalu fy ngweithwyr. | Roedd ________________ fy musnes yn cynnwys y gost o brynu fy nwyddau a thalu fy ngweithwyr. |
| Colled | Y gwrthwyneb i elw. Os gwnaethoch chi wario mwy o arian na'r hyn y gwnaethoch ei ennill, fe wnaethoch chi golled. | Dechreuais fusnes yn gwerthu hetiau ond ni wnaeth y cwsmeriaid eu prynu am y pris roeddwn i'n ei ofyn. Bu'n rhaid gostwng y pris yn is na'r gost prynu. Fe wnes i golled. | Dechreuais fusnes yn gwerthu hetiau ond ni wnaeth y cwsmeriaid eu prynu am y pris roeddwn i'n ei ofyn. Bu'n rhaid gostwng y pris yn is na'r gost prynu. Fe wnes i ______________________. |
| Marchnata | Gweithgareddau i annog pobl i brynu cynnyrch. | Ar ôl meddwl yn galed am y gwahanol ffyrdd o farchnata ei fusnes, penderfynodd Mohammed wneud taflenni gwybodaeth i'w rhoi trwy flychau llythyrau. | Ar ôl meddwl yn galed am y gwahanol ffyrdd o ______________________ ei fusnes, penderfynodd Mohammed wneud taflenni gwybodaeth i'w rhoi trwy flychau llythyrau. |
| Dyled | Rhywbeth sy'n ddyledus i unigolyn neu sefydliad arall. | Benthycodd Brian £5 oddi wrth ei chwaer ond bydd yn ad-dalu'r ddyled hon pan gaiff ei arian pen-blwydd. | Benthycodd Brian £5 oddi wrth ei chwaer ond bydd yn ad-dalu'r ______________________ hon pan gaiff ei arian pen-blwydd. |
| Busnes Manwerthu | Cwmni sy'n cynnig nwyddau fel dillad neu deganau yn gyfnewid am arian. | Dechreuais fusnes manwerthu, yn gwerthu bagiau siopa amldro. | Dechreuais _________________ yn gwerthu bagiau siopa amldro. |
| Cynllun Busnes | Dogfen sy'n nodi cynlluniau ar gyfer busnes newydd. | Roedd gan Chris syniad gwych ar gyfer busnes newydd, ond roedd angen cynllun busnes arno er mwyn gweithio allan sut i'w wneud yn llwyddiant. | Roedd gan Chris syniad gwych ar gyfer busnes newydd, ond roedd angen ____________________ _______________ arno er mwyn gweithio allan sut i'w wneud yn llwyddiant. |
| Mentrus | Mae'n disgrifio unigolyn sydd â syniadau busnes creadigol ac sy'n gallu eu rhoi ar waith. | Sylweddolodd Hannah fod plant yn y parc yn mynd yn sychedig iawn, felly dechreuodd werthu dŵr. Mae Hannah yn fentrus iawn. | Sylweddolodd Hannah fod plant yn y parc yn mynd yn sychedig iawn, felly dechreuodd werthu dŵr. Mae Hannah yn____________________________iawn. |

## Taflen Gyfeirio

| Gair | Diffiniad | Enghraifft | Dealltwriaeth |
|---|---|---|---|
| Cyflogwr | Unigolyn neu sefydliad sy'n talu pobl am eu gwaith. | Dechreuodd fy nghyflogwr fusnes yn gwerthu esgidiau, ac mae'n talu arian i mi am helpu yn y siop. | Dechreuodd fy_________________________________ __________________ fusnes yn gwerthu esgidiau, ac mae'n talu arian i mi am helpu yn y siop. |
| Uchelgeisiol | Yr awydd i fod yn llwyddiannus. | Pan oedd yn blentyn roedd Joanne yn breuddwydio am berchen ar fusnes llwyddiannus. Mae hi wastad wedi bod yn uchelgeisiol. | Pan oedd yn blentyn roedd Joanne yn breuddwydio am berchen ar fusnes llwyddiannus. Mae hi wastad wedi bod yn________________________________. |
| Arloesol | Meddu ar syniadau creadigol a'r gallu i'w rhoi ar waith. | Roedd Steve Jobs, a greodd yr iPhone, yn ddyn arloesol. | Roedd Steve Jobs, a greodd yr iPhone, yn ddyn ________________________________. |
| Menter | Meddu ar syniadau i wneud pethau mewn ffordd wahanol er gwell, a rhoi cynnig arnyn nhw. | Ar ei fenter ei hun trefnodd Jacob y pennau a'r pensiliau yn y dosbarth er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i'r rhai iawn. | Ar ei ______________________________________ __ ei hun trefnodd Jacob y pennau a'r pensiliau yn y dosbarth er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i'r rhai iawn. |
| Creadigol | Y gallu i wneud neu greu rhywbeth newydd neu gyda dychymyg | Roedd gan Josh ateb creadigol nad oedd neb arall wedi ei ystyried bob amser. | Roedd gan Josh ateb__________________________ _______________________________________ nad oedd neb arall wedi ei ystyried bob amser. |
| Galluog | Disgrifiad o unigolyn sydd â'r gallu i gyflawni llawer o bethau. | Roedd Marie yn gallu llwyddo ym mhob dim yr oedd yn ymroi iddo. Roedd yn alluog iawn. | Roedd Marie yn gallu llwyddo ym mhob dim yr oedd yn ymroi iddo. Roedd yn _________________________________iawn. |